



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Gwasanaethau Byw â Chymorth a Chymorth Cymunedol Mirus – Rhanbarth Powys

**Mirus Cymru
Uned 5 Cleeve House
Lambourne Crescent
Caerdydd
CF14 5GP**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

2 Awst 2022

3/8/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Gwasanaethau Byw â Chymorth a Chymorth Cymunedol Mirus – Rhanbarth Powys

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cymorth cartref
Darparwr cofrestredig	Mirus Cymru
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	8/10/20
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Mae Mirus Cymru yn darparu gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain ledled Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â rhanbarth Powys.

Mae'r bobl yn derbyn gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r cynlluniau gofal a chymorth wedi'u teilwra'n unigol i ddiwallu anghenion penodol y bobl. Mae prosesau ar waith sy'n sicrhau bod y bobl yn ymgysylltu cymaint â phosibl â'r broses o gynllunio cymorth a datblygu sgiliau. Mae systemau monitro cadarn yn cadw golwg ar gynnydd y bobl mewn perthynas â sgiliau byw bob dydd a'u hiechyd a llesiant cyffredinol. Mae'r asesiadau risg yn glir ac yn dangos trothwyon ar gyfer ymyrraeth. Adolygir dogfennau gofal yn gyfnodol, yn unol â'r rheoliadau.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel ac mae ystod o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith sy'n sail i arferion diogel. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwyllo darpariaeth y gwasanaeth yn dda ac yn cyfarfod yn rheolaidd â'r bobl sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth i lywio gwelliannau. Gwelsom fod angen gwelliannau i sicrhau bod yr holl staff wedi eu diweddarau mewn perthynas â gofynion hyfforddiant craidd y gwasanaeth a bod y staff yn derbyn y lefelau angenrheidiol o oruchwyliaeth ac arfarnu o fewn yr amserlenni gofynnol.

Llesiant

Mae systemau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Caiff polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag arferion diogel eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn cynnwys canllawiau cenedlaethol cyfredol. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau ar gyfer diogelu, chwythu'r chwiban, meddyginiaeth a rheoli heintiau. Mae'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu ac yn gwybod beth yw'r broses ar gyfer codi pryderon. Mae'r mesurau rheoli heintiau yn lleihau'r risg o groes-halogi. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant perthnasol ac mae cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol. Mae profion COVID-19 rheolaidd yn helpu i reoli unrhyw frigiadau o achosion. Mae cymorth ar gael i'r bobl ag anghenion meddyginiaethol. Gwnaethom archwilio nifer o siartiau cofnodi meddyginiaeth a chanfod eu bod wedi'u llenwi'n gywir heb unrhyw fylchau. Mae hyn yn awgrymu bod y bobl yn derbyn eu meddyginiaeth yn unol ag argymhellion y presgripsiynydd. Cynhelir archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod unrhyw anghysondebau yn cael eu nodi a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi dewisiadau'r bobl. Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt a chânt eu hannog i ddatblygu i'w llawn botensial. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn cymryd rhan sylweddol yn y broses o gynllunio eu gofal. Mae hyn yn sicrhau bod deilliannau personol y bobl yn cael eu nodi. Gwelsom fod gan y bobl gynlluniau gweithgareddau unigol sy'n cynnwys tasgau domestig yn ogystal â gweithgareddau hamdden. Cynhelir gweithgareddau yng nghartrefi'r bobl yn ogystal ag yn y gymuned ehangach. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi'r bobl i fynd ar wyliau o'u dewis. Mae adolygiadau rheolaidd o anghenion gofal a chymorth y bobl yn sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ymweld â nifer o wasanaethau byw â chymorth. Gwnaethom arsylwi ar ryngweithio cadarnhaol rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda a'u bod yn gyfarwydd â'u hanghenion, eu gofynion a'u trefniadau arferol. Darparodd y bobl a'u cynrychiolwyr adborth canmoliaethus, gan ddefnyddio geiriau fel "*ardderchog*", "*gwyich*" a "*da*" i ddisgrifio'r gweithwyr gofal a'r tîm rheoli.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn elwa ar dderbyn gofal a chymorth cyfannol o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r cynlluniau personol yn amlygu deilliannau unigol y bobl ac yn darparu gwybodaeth fanwl, llawn gwybodaeth am y ffordd orau o gefnogi'r bobl i gyflawni'r rhain. Gwnaethom archwilio nifer o gynlluniau personol a chanfod eu bod yn cael eu datblygu ar y cyd â'r person, ei gynrychiolwyr a, lle bo angen, y tîm amlddisgyblaethol ehangach. Mae'r cynlluniau personol yn casglu gwybodaeth ynghyd, megis hoffterau'r bobl, eu hanghenion, yr hyn sy'n bwysig iddynt, a'r ffyrdd gorau o ddarparu gofal a chymorth ar eu cyfer. Mae cynlluniau arbenigol, megis cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol, ar waith i sicrhau bod anghenion ymddygiad y bobl yn cael eu rheoli mewn modd diogel a pharchus. Caiff y risgiau i'r bobl eu hasesu'n drylwyr a'u rheoli'n effeithiol, gyda chynlluniau ar waith sy'n hybu'r bobl i gymryd risgiau cadarnhaol. Caiff dogfennau gofal eu hadolygu a'u diweddarau yn gyfnodol pan fydd anghenion y bobl yn newid.

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Gwnaethom siarad â nifer o'r bobl a'u cynrychiolwyr, a rhoddodd pob un ohonynt adborth cadarnhaol am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Dywedodd un person wrthym, *“Rwy'n adnabod yr holl ofalwyr. Mae'r rhan fwyaf wedi gweithio yma ers tro. Maen nhw'n wych, maen nhw'n gwneud gwaith gwych. Maen nhw'n ein cefnogi ni'n dda iawn.”* Dywedodd perthynas i berson sy'n defnyddio'r gwasanaeth, *“Mae fy mab yn ddiogel, mae'n cael cyfleoedd. Maen nhw'n ymatebol fel gwasanaeth; maen nhw'n gweithio i ddatrys unrhyw faterion a allai fod wedi codi.”*

Mae systemau ar waith i fonitro cynnydd y bobl mewn perthynas â datblygu sgiliau a llesiant cyffredinol. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r model 'Cymorth Gweithredol'. Mae'r dull hwn o ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sicrhau bod pobl o bob gallu yn cael eu cefnogi'n briodol i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Caiff cyfranogiad ar gyfer pob gweithgaredd ei fonitro bob chwe mis er mwyn dangos cynnydd neu ddirywiad. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda ac yn gallu nodi newidiadau yn eu hiechyd a'u llesiant. Gwelsom fod y cofnodion dyddiol yn gyfredol a bod unrhyw newidiadau i gyflwyniad y bobl yn ysgogi atgyfeiriadau at y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol.

Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr yn nodi'r nodau a'r gwerthoedd a'r math o ofal a chymorth a gynigir. Gwnaethom archwilio y dogfennau hyn a chanfod eu bod yn adlewyrchu'r gofal a'r cymorth y mae'r bobl yn eu derbyn.

Yr Amgylchedd

Nid yw'r maes hwn yn cael ei ystyried fel rhan o arolygiad gofal cartref. Mae swyddfeydd yr asiantaeth yn addas ar gyfer eu defnydd bwriadedig gyda chyfleusterau storio diogel.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd cadarn ar waith i gefnogi rhediad llyfn y gwasanaeth. Mae gan y gwasanaeth gyfres glir o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith sy'n cefnogi arferion diogel. Gwelsom dystiolaeth bod yr unigolyn cyfrifol yn dadansoddi cwynion, materion diogelu neu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol eraill yn rheolaidd. Mae'r rheolwyr ardal yn cynnal archwiliadau cyfnodol o bob gwasanaeth byw â chymorth ac yn ystyried meysydd fel meddyginiaeth, cymorth ymddygiad cadarnhaol, gweithio'n unigol a diogelwch tân. Gwelsom dystiolaeth fod camau ar gyfer gwelliant wedi bod yn cael eu rhoi ar waith pan nodwyd diffygion. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cyfarfod â'r bobl a gynorthwyir a'r staff yn rheolaidd i drafod eu barn am ddull cyflwyno'r gwasanaeth ac er mwyn derbyn adborth i lywio gwelliannau. Caiff adroddiad ansawdd gofal ei gwblhau bob chwe mis. Gwnaethom archwilio'r ddau adroddiad ansawdd gofal diwethaf a chanfod eu bod yn fanwl ac yn amlygu cryfderau'r gwasanaeth yn glir a'r meysydd y gellir eu gwella.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o weithwyr gofal sydd wedi'u recriwtio'n ddiogel. Gwnaethom edrych ar nifer o ffeiliau personél a chanfod bod yr holl wiriadau recriwtio cyn cyflogaeth angenrheidiol wedi'u cwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwelsom dystiolaeth o raglen sefydlu strwythuredig y mae'n rhaid i gyflogeion newydd ei chwblhau. Roedd y gweithwyr gofal yn siarad yn gadarnhaol am y broses sefydlu ac roeddent yn dweud bod yr hyfforddiant a gawsant a'r cyfle i gysgodi aelodau profiadol o'r tîm wedi bod yn gyflwyniad da i'r gwasanaeth.

Mae angen gwelliannau i sicrhau bod y gweithwyr gofal yn cael eu cefnogi i ddatblygu i'w llawn botensial. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu, gan gynnwys hyfforddiant craidd ac arbenigol. Dengys cofnodion nad yw'r holl staff yn cydymffurfio â gofynion hyfforddiant craidd y gwasanaeth mewn meysydd fel diogelu, rhoi meddyginiaeth a chymorth cyntaf. Gwnaethom drafod hyn gyda'r tîm rheoli, gan egluro ei fod yn faes i'w wella ac y byddwn yn ei adolygu yn ein harolygiad nesaf. Ar y cyfan, mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw nad oedd hyn yn wir, gan sôn am ddiffyg cefnogaeth gan y rheolwyr. Gwnaethom edrych ar gofnodion yn ymwneud â goruchwylio ac arfarnu a chanfod nad oedd pob gweithiwr gofal wedi derbyn y lefelau a argymhellir o gymorth ffurfiol o fewn yr amserlen ofynnol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr ddatrys y mater.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
36	Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â Rheoliad 36 (2) (c). Mae hyn oherwydd nad yw'r holl staff wedi derbyn sesiynau goruchwylio ac arfarnu mor aml ag sydd yn ofynnol.	Newydd
36	Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â Rheoliad 36 (2) (d). Mae hyn oherwydd nad yw'r holl staff yn cydymffurfio â gofynion hyfforddiant craidd y gwasanaeth.	Newydd

Dyddiad cyhoeddi 06/09/2022